

25/9/2020

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Ynghylch: Gwybodaeth am achos a gadarnhawyd o'r coronafeirws yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe.

Mae gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru wedi cael gwybod am achos a gadarnhawyd o COVID-19 (y Coronafeirws) yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe**.

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe yn parhau ar agor. Mae'n gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau priodol ar waith i ddiogelu myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach. Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu am y sefyllfa bresennol a rhoi cyngor ar sut y gallwch gefnogi eich plentyn.

Nodwyd holl gysylltiadau agos yr achos ac maent wedi cael cyngor priodol i hunanynysu. **Ni nodwyd bod eich plentyn yn gysylltiad agos ac felly nid oes angen iddo hunanynysu na chael prawf COVID-19.** Gall barhau i fynychu **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** yn ôl yr arfer.

Fodd bynnag, dim ond rhag ofn, cadwch lygad am unrhyw rai o symptomau COVID-19:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel
- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf iddo drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: <https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test>
- Rhowch wybod i **Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** ei fod yn teimlo'n anhwylyd gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn hunanynysu am 10 diwrnod o'r diwrnod y dechreuodd ei symptomau
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd eich plentyn symptomau
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn cael canlyniadau ei brawf



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae pethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma

<https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth>

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu ar gael yma

<https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws>

I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 <https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-erail-rhag-y-coronafeirws>

Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthy ch a oes angen help meddygol arnoch a'ch cynghori ynghylch beth i'w wneud <https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws>

Yn sgil yr uchod, ni fyddwn yn gallu darparu bwyd o ffreutur yr ysgol am y bythefnos nesaf. Byddwn yn ail ddechrau gweini bwyd o'r ffreutur o ddydd Llun y 12fed o Hydref. Byddwn yn parhau i ddarparu pecyn bwyd i ddisgyblion sydd yn deilwng am brydau ysgol am ddim dros y bythefnos nesaf. Rydym wedi danfon e-bost yn uniongyrchol i riant pob disgybl sydd yn deilwng i bryd ysgol am ddim gyda manylion am sut i archebu bwyd i'ch plentyn ar gyfer y bythefnos nesaf.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

